

Pigion o'r Gymanfa Gyffredinol

Yn ystod adroddiad gan yr Adran Adnoddau a'r Bwrdd Eiddo eleni cyfeiriwyd at adolygiad o weithgarwch Coleg y Bala a Choleg Trefeca. Yn adroddiad Coleg Trefeca "O ddoe tuag at yfory" crynhowyd sawl agwedd bositif ar weithgarwch ein canolfannau. Dywedwyd bod y ddwy ganolfan fel ei gilydd yn cael eu cydnabod fel "asedau gwerthfawr ... yn y gwaith o hyrwyddo ein Bywyd a'n Tystiolaeth."

Dywedwyd bod gan Goleg Trefeca'n benodol "obaith" y bydd y defnydd a wneir gan y Cyfundeb o'r ganolfan yn cynyddu yn ystod y deunaw mis nesaf.

Wedi bod mewn sawl Cymanfa Gyffredinol dros y blynyddoedd ni chlywodd y golygydd erioed mo adroddiad unrhyw un o'r adrannau'n cael eu cloi trwy benillion neu gyfarchiad ar gân. Ond wrth ddwyn adroddiad Is-bwyllgor Coleg Trefeca, adroddodd Mel Morgans, Brynman benillion yr oedd wedi eu cyfansoddi i'n hannog i werthfawrogi a chefnogi gwaith y Coleg.



COLEG TREFECA

Wrth wlyo haul Gorffennaf
Yn gloywi'n Wreccsam ni,
Dewch gyda mi am dro yn awr
I weld yr enwog dŷ,
Rhwng Llyn Llangors a Thalgarth dre
Sy'n rhan yn wir o deyrnas ne'.

Wrth feddwl am Drefeca
Rhaid cofio yma'n glir,
Mai hen gartref Howel Harris
Oedd hwn – mae'n eithaf gwir,
A dyna'r rheswm pam i ni
Yn eistedd yma wyddoch chi.

Mewn cyfnos tywyll pygddu
Daeth dyn fel mewn twym ias
Yn llawn gwreigion golau tanllyd
O Drefeca fach i ma's,
Mil saith un pedwar ydoedd hi
Pan annwyd ef ein harwr ni.

Swynwyd pêr ganiedydd draw
Ym mynwent Talgarth gynt
Wrth glywed Howel Harris
Tel taran yn y gwynt,
A meddai pawb yn ddiwahan
Mae Pantycelyn biau'r gân.

Tair canrif a aeth heibio
Ond saif ein caer yn dal
Cadarnle a barhâ i ni
Enaid mewn pedair wal,
Dewch draw i deimlo'r iâs a gerdd
Drwy ddrws agored mangre werdd.

Mae yno ystafelloedd crand
Lloches fendigedig,
A diolch i'n Bwrdd Eiddo ni
Am bunt neu ddwy garedig;
A gwyddoch hyn pob gwraig a gŵr
Fe droir yn win Drefeca ddŵr.

Gweddï yn y capel bach
Encil siŵr o'ch swyno
Moethusrwydd ystafelloedd clyd
Bwyd sy'n siŵr o'ch mwytho;
Hen greiriau hanesyddol sydd
Yn adrodd campau 'slawer dydd.

Crëwyd amgueddfa wych
Sydd heddiw'n hanesyddol,
Gan fyw fel rhan o'n teulu ni
Yn hollol annibynnol;
Ac er mai Presbyteriaidd yw
Mae croeso i bob enwad Duw.

Yn Mair a Rich ac Alun
Rheolaeth llwyr a gawn,
Gweinyddol ac ysbrydol ynt
Ewch yno unrhyw b'nawn,
A chofiwch hyn cewch gyda'r hwyr
Epilog i'ch nerthu'n llwyr.

Ymddiriedolwyr fel myfi
Sy'n ceisio cadw trefn
Ar adeiladau, gweithwyr triw
A'r cyfan sydd wrth gefn,
Ond angen sydd am newydd waed
I geisio gwneud yr hyn sydd rhaid.

A'r nos a fydd yn olau
Drwy rym yr Ysbryd Glân
Pan fyddwch chi'n ymweld â ni
Trefeca fydd ar dân,
Na, nid llosgi wna'r adeilad
Ond ein fflam a ddwyn llesâd.

Pan fydd yr adran Hanes
Yn dod â'i darlith hwy
A'r Adran Ysbrydolrwydd
Yn gofyn pwy 'dy pwy,
Caiff Eiddo ac Adnoddau 'nôl
Benthyciad eto'n llawn i'w côl.

Ymgeiswyr ac Hyfforddiant
Yn cymell gwraig neu ŵr
I ddod ar gwrs blaenoriaid
Neu bregethwyr lleyg, bid siŵr;
A dowch blant bychain atom ni
I godi eich gobethion chi.

Cofiwn am geiswyr lloches,
Teulu a mudo rhai,
Gwelir Eglwys a Chymdeithas
Yn gweithio yn ddi-drai,
Masnachu pobol ni bydd mwy
Trefeca gais i'w gwarchod hwy.

Marchnata a chodi proffil
Trefeca fydd y nod
Gan godi teulu newydd
I seinio a chanu clôd;
Trwy weddi a chefnogaeth fyw
Fe ddaw Trefeca'n Deulu Duw.

Cyn troi i'ch cartrefleoedd
Boed Dwyrain, Gogledd, De,
Mae'n gwreiddiau Presbyteriaidd ni
A'n dyfodol yn y lle;
Fel Harris fu'n taranu gynt
Trefeca chwyth i'r pedwar gwynt.

Duw a faddau i ni gyd
Am beidio sylweddoli
Pwysigrwydd ein Trefeca ni
Fel encil ac addoldy,
Wrth edrych nôl fe gofiwn ni,
"Ymlaen yr awn i 'fory"

(Gol. Y flwyddyn nesaf rydym yn edrych ymlaen i glywed adroddiadau Bwrdd y Gymanfa wedi eu cyflwyno'n llwyr ar ffurf mudr ac odli!)

Pigion o'r Gymanfa



Er mwyn yfory

Traddodwyd y Ddarlith Hanes eleni gan y Parch Gerallt Lloyd Evans. Teitl ei ddarlith oedd *Er mwyn i'r to sy'n codi wybod.* (Salm 78:6) Bydd y ddarlith yn ymddangos yn y Cylchgrawn Hanes i bawb na chafodd gyfle i wrando ar y traddodi gael cyfle i ddarllen ei chynnwys.